Canolfan Ymchwil Canser Cymru | Wales Cancer Research Centre

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

2025- 2026
Adroddiad blynyddol

Cynnwys

Cyflwyniad 3

Strwythur y Ganolfan 2025 - 2026 4

Metrigau craidd 5

Cyflawniadau allweddol 6

Uchafbwyntiau a meysydd effaith CYCC 7

- CReSt: cryfhau sylfeini ymchwil 7
- Cynyddu capasiti ymchwil 10
- Broceru cydweithrediad 14
- Cyflawni gweithgarwch sy'n galluogi ymchwil 19

Casgliad 23

Delwedd clawr blaen: Dr Rosie Mundy, derbynnydd Gwobr Cychwyn Gyrfa CYCC

Cyflwyniad

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Rhanddeiliaid 2025/26 ar gyfer Canolfan Ymchwil Canser Cymru (CYCC), sy'n nodi dechrau cyfnod newydd ar gyfer ymchwil canser yng Nghymru. Gan adeiladu ar gynnydd o 2020-2025, rydym yn cryfhau'r seilwaith ymchwil ac yn canolbwyntio ar gyflawni gwelliannau mesuradwy i gleifion a chymunedau.

Mae CYCC, a ariennir gan Lywodraeth Cymru trwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac sydd wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd, yn darparu arweinyddiaeth strategol ac yn cefnogi ymchwil i wella canlyniadau canser. Mae ein gwaith yn cael ei arwain gan chwe thema flaenoriaeth Strategaeth Ymchwil Canser Cymru (CReSt): oncoleg fecanistig a manwl-gywir, imiwno-oncoleg, radiotherapi, treialon clinigol canser, gofal cefnogol a lliniarol, ac atal a chanfod yn gynnar ar sail poblogaeth.

Eleni, dathlwyd effaith CReSt trwy **adroddiad newydd** sy'n tynnu sylw at gynnydd ledled Cymru, ochr yn ochr â pharhau i gyflawni mentrau i gryfhau'r llif ymchwil. Mae ein Gwobrau Cychwyn Gyrfa wedi cynorthwyo ymchwilwyr gyrfa gynnar i gynhyrchu data rhagarweiniol a llunio ceisiadau cyllid cystadleuol, tra nododd y Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar a Chanol Gyrfa (EMCR) ei flwyddyn gyntaf trwy gysylltu a chefnogi ymchwilwyr sy'n dod i'r amlwg ar draws y gymuned.

Roedd Cynhadledd Ymchwil Canser Cymru 2026 yn adeg allweddol yn y flwyddyn, gan ddod ag ymchwilwyr, clinigwyr a phartneriaid ynghyd o bob rhan o'r Deyrnas Unedig i rannu datblygiadau a meithrin cydweithrediadau. Adlewyrchir y dull cydweithredol hwn ymhellach yn ein cefnogaeth i Bartneriaeth Ymchwil Canser Caerdydd (CCRP), gan gryfhau'r cysylltiad rhwng Prifysgol Caerdydd, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i sbarduno ymagwedd fwy cydlynol tuag at ymchwil canser yng Nghymru.

Mae'r gweithgareddau hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i weithio'n gydlynol ar draws prifysgolion, sefydliadau'r GIG, a phartneriaid i gynyddu capasiti, ehangu cyfleoedd, a sicrhau bod ymchwil o fudd i bobl ledled Cymru.

Er bod heriau'n parhau, gan gynnwys achosion cynyddol o ganser ac anghydraddoldebau iechyd parhaus, rydym yn hyderus y bydd cryfder ein partneriaethau ac ymroddiad ein cymuned ymchwil yn ein galluogi i ymateb iddynt. Trwy barhau i ddenu buddsoddiad, adeiladu rhwydweithiau, a hyrwyddo ymchwil o ansawdd uchel, mae CYCC mewn sefyllfa dda i helpu i gyflawni gwelliannau mesuradwy ym meysydd atal, diagnosis, triniaeth a gofal cefnogol.

Hoffwn ddiolch i'n hymchwilwyr, ein partneriaid, ein rhanddeiliaid, a'n cyllidwyr am eu cefnogaeth a'u hymrwymiad parhaus. Gyda'n gilydd, byddwn yn cefnogi datblygiad ymchwil canser yng Nghymru, gyda phwyslais clir ar wella bywydau cleifion a theuluoedd.

Diolch yn fawr iawn,

Yr Athro Mererid Evans
Cyfarwyddwr, Canolfan Ymchwil Canser Cymru



Delwedd: Yr Athro Mererid Evans

Strwythur y Ganolfan 2025 - 2026

Mae strwythur arwain a chyflawni presennol y Ganolfan fel a ganlyn, ac mae'n destun cyngor a goruchwyliaeth gan Fwrdd Cynghori Allanol, Pwyllgor Llywio CYCC/CReSt a Grŵp Arweinyddiaeth CReSt.

Arweinyddiaeth academaidd CYCC

Yr Athro Mererid Evans
Cyfarwyddwr



Yr Athro Duncan Baird
Cyfarwyddwr Cyswllt

Yr Athro Sunil Dowani
Cyfarwyddwr Cyswllt

Dr Helen Pearson
Cyfarwyddwr Cyswllt

Tîm Hyb CYCC

Jenni Macdougall
Strategaeth

Dr Ceri Morris
Gweithrediadau

Ynghyd â ~3.3 CALl o blith staff cyfathrebu, prosiect, rheolwr prosiectau gwyddonol a chymorth gweinyddol

Partneriaid ymchwil lleyg CYCC

Dr Sally Anstey
Partner Ymchwil Arweiniol

Bob McAlister
Partner Ymchwil CReSt

Ynghyd â 5 Partner Ymchwil arall sy'n cyd-fynd â themâu CReSt

Arweinwyr thema CReSt

Carfan o 12 o arweinwyr academaidd sy'n gyfrifol am:

- gydlynu gweithgarwch ymchwil ar gyfer eu thema
- gweithredu fel hyrwyddwyr ymchwil yn eu maes
- nodi cyfleoedd ar gyfer cynnydd ar y cyd o fewn ac ar draws meysydd thematig

Ymchwilwyr a ariennir gan CYCC

Carfan o ymchwilwyr a myfyrwyr PhD a ariennir yn llawn neu'n rhannol gan CYCC wedi'i lleoli yn:

- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol Bangor
- Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

★ Aelod o Grŵp Uwch Arweinyddiaeth CYCC

Metrigau craidd

Cyfnod adrodd: 2025/2026

Gwobr seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i'r grŵp

Cyllid uniongyrchol a ddyfarnwyd
£972,391

Swyddi a grëwyd drwy gyllid uniongyrchol

Grantiau a enillwyd yn ystod y cyfnod adrodd

Grantiau a enillwyd	Dan arweiniad y grŵp	Grŵp yn cydweithio
Nifer	13	5
Gwerth	£5.7m	£4.9m
Cyllid i Gymru	£5.7m	£4.9m
Cyllid i grŵp	£1.3m	£468,325
Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer Cymru	19	12
Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer grŵp	7	4

Nifer y cyhoeddiadau

Nifer y digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd

Nifer y cyfleoedd i'r cyhoedd gymryd rhan

Cyflawniadau allweddol 2025 - 2026

18 Grantiau a brynodd

£10.6m

i Gymru o 14 o gyllidwyr

24 Ymchwilwyr wedi'u cefnogi trwy gyllid CReSt a CYCC

ar draws sefydliadau **6**

Arweinyddiaeth strategol

Lansio adroddiad CReSt newydd: 'Dathlu ein cynnydd ar y cyd' (Mawrth 2026)

5 Ymchwilydd Gyrfa Gynnar wedi'u cefnogi trwy Wobrau Cychwyn Gyrfa CReSt

Cyd gynhyrchu PIRIT

PIRIT
Public Involvement in Research Impact Toolkit

Lawrlwythwyd **2542** gwaith gan ddefnyddwyr o **37** o wledydd

Dod â phobl ynghyd

20 Ymchwilwyr/cyn-fyfyrwyr wedi mynychu Diwrnod Rhwydweithio Ymchwilwyr CYCC

15 Ymchwilwyr wedi cynorthwyo â digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd

135 o Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar-Canol Gyrfa (EMCR) wedi ymuno â'n Rhwydwaith EMCR

3 cymrodoriaeth cyn-fyfyrwyr CYCC

Denodd Cynhadledd CYCC 2026

296 o gynrychiolwyr cofrestredig a

103 crynodebau a dderbyniwyd

Uchafbwyntiau a meysydd effaith CYCC

CReSt: cryfhau sylfeini ymchwil

Dathlu Blwyddyn o Fomentwm: Cynnydd â'r strategaeth CReSt

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi cael ei gwella trwy fuddsoddiad parhaus yn ein cymuned ymchwil glinigol, trwy gyllid Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a ddyrannwyd i CYCC i helpu i gyflawni'r strategaeth CReSt ar gyfer Cymru.

Arddangos Cyflawniadau Cymru: Adroddiad Cynnydd CReSt

Ym mis Mawrth 2026, i gyd-fynd â chynhadledd CYCC, fe wnaethom gyhoeddi crynodeb cynhwysfawr o weithgarwch ers sefydlu CReSt. Mae'r adroddiad hwn nid yn unig yn cyfleu uchafbwyntiau ymchwil sy'n mynd rhagddi ledled Cymru, ond hefyd y seilwaith cryfach a'r dyfnder ymgysylltu a gyflawnwyd ar draws cymunedau clinigol, academaidd a throsiadol. Mae'r cyhoeddiad yn faen prawf i bartneriaid a chyllidwyr, gan atgyfnerthu gwerth a chyfeiriad ein cenhadaeth a rennir.

Buddsoddi mewn Arweinwyr Ymchwil Glinigol

Un garreg filltir bwysig eleni oedd lansio galwad Sesiynau Ymchwil Clinigol CReSt ym mis Mehefin 2025, gyda'r nod o alluogi clinigwyr canser i neilltuo amser ymchwil gwarchodedig am hyd at ddau ddiwrnod yr wythnos, i ddatblygu astudiaethau canser newydd a gwaith trosiadol cysylltiedig.

Ar ôl asesu a chyfweld, cynigiwyd amser ymchwil i bedwar clinigydd dawnus i ddatblygu eu gwaith. Y ddau gyntaf i ymgymryd â'u swyddi ym mis Ebrill 2026 oedd Dr Mark Willis, Niwrolegydd Ymgynghorol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, y mae ei ddiddordeb ymchwil mewn niwrowenwyndra imiwnotherapi canser; a Dr James Powell, oncolegydd clinigol ymgynghorol yng Nghanolfan Ganser Felindre a fydd yn defnyddio'r amser i ehangu portffolio Caerdydd o dreialon clinigol tiwmorau'r ymennydd.

Mae'r penodiadau hyn yn dangos ymrwymiad CReSt i amgylchedd clinigol sy'n weithredol o ran ymchwil, a gobeithiwn gynnal galwad arall yn 2026.

Thema 1: **Oncoleg fecanistig a manwl-gywir**



Thema 2: **Imiwno-oncoleg**

Thema 3: **Radiotherapi**

Thema 4: **Treialon clinigol ym maes canser**

Thema 5: **Oncoleg gefnogol a lliniarol**

Thema 6: **Ymchwil atal, canfod cynnar, gofal sylfaenol a gwasanaethau iechyd**

Ysgogi Arloesedd: Y Gronfa Datblygu Cysyniadau

Cynhaliwyd Cronfa Datblygu Cysyniadau CReSt yn 2025 i ddarparu cyllid sbarduno hanfodol ar gyfer data peilot, gwaith dichonoldeb, hyfforddiant, a gweithgarwch ymchwil cam cynnar arall. Ym mis Hydref 2025, lansiwyd galwad agored gyda'r nod o rymuso ymchwilwyr clinigol ac anghlinigol o bob sefydliad yng Nghymru i archwilio cysyniadau newydd a rhoi eu hunain mewn sefyllfa gystadleuol ar gyfer cynigion cenedlaethol a rhyngwladol mwy.

Roedd yr ymateb yn frwdfrydig, a daeth 18 o geisiadau i law. Ym mis Tachwedd 2025, argymhellodd y panel adolygu 12 prosiect i'w cyllido, gan gynrychioli cyfanswm buddsoddiad o £97,500. Mae'r prosiectau hyn yn rhychwantu gwyddor data ar raddfa'r boblogaeth, ymchwil labordy fecanistig, arloesi delweddu, microhylifeg, canfod cynnar, adnabod targedau therapiwtig, a mwy. Yr ymgeiswyr llwyddiannus oedd:

- **Arron Lacey, Laura Baker** (Prifysgol Abertawe) a **Mathew Clement** (Prifysgol Caerdydd) – Epidemioleg canser yr ymennydd gan ddefnyddio data gofal iechyd hydredol
- **Deya Gonzalez** (Prifysgol Abertawe) – Grwpiau ffocws wedi'u cynllunio ar y cyd i wella adnabod symptomau mewn canserau menywod
- **Stefano Zappala** (Prifysgol Caerdydd) – Delweddu dewteriwm i ddilysu uwch sensitifrwydd coil MRI 7T
- **Hadia Almahli** (Prifysgol Bangor) – Datblygu atalyddion CDK2 cenhedlaeth nesaf
- **Nicholas Rawlings** (Prifysgol Caerdydd) – Nodi cyfleoedd ar gyfer atgyfeirio'n gynharach ar gyfer canser y geg
- **Chris Staples** (Prifysgol Bangor) – Sgrinio targedau therapiwtig mewn canserau'r fron BRCA-1 mwtan
- **Helen Brown** (Prifysgol Caerdydd) – Optimeiddio model allblannu prostad 3D
- **Helen Pearson a Tabitha Cunliffe** (Prifysgol Caerdydd) – Deall swyddogaethau gwahanol PARP1 a PARP2
- **Paul Shaw** (Bwrdd Iechyd Prifysgol Felindre) – Mapio llif gwaed tiwmorau'r ysgyfaint trwy ddadansoddiad MRI uwch
- **Lee Parry** (Prifysgol Caerdydd) – Gwella diogelwch a phenodoldeb therapïau canser bacteriol
- **Catherine Hogan** (Prifysgol Caerdydd) – Ymchwilio i heterogenedd mewn tarddgelloedd canser pancreatig
- **Naledi Formosa** (Prifysgol Caerdydd) – Datblygu model asgwrn dynol ar sglodyn ar gyfer ymchwil metastasis canser y fron

Trwy alluogi syniadau cynnar i ffynnu, mae'r Gronfa Datblygu Cysyniadau yn parhau i gryfhau rhagoriaeth ymchwil a chystadleurwydd Cymru ar y llwyfan cenedlaethol.

> *"Bydd y cyllid hwn yn galluogi'r dadansoddiad cyntaf ar raddfa'r boblogaeth o gleifion tiwmorau'r ymennydd yng Nghymru gan ddefnyddio data cysylltiedig, dienw o Fanc Data SAIL. Bydd yn cefnogi mynediad diogel at ddata a hyfforddi ymchwilwyr labordy gwlyb mewn gwyddor data, gan gryfhau gallu rhyngddisgyblaethol. Byddwn yn ymchwilio i sut mae statws economaidd-gymdeithasol, daearyddiaeth, a mynediad at ofal yn ffurfio diagnosis, triniaeth a goroesi, gyda phwyslais ar glioblastoma. Bydd y prosiect yn cynhyrchu tystiolaeth hollbwysig ar anghydraddoldebau mewn gofal a chanlyniadau, gan lywio ymchwil yn y dyfodol, gwella gwasanaethau, a darparu sylfaen gref ar gyfer cyllid pellach. Lluniwyd yr astudiaeth hon trwy gydweithrediad rhwng gwyddonwyr data ac arbenigwyr glioblastoma yn Niwrnod Rhwydweithio Ymchwilwyr CYCC, ac rydym yn gyffrous i ddatblygu'r ddealltwriaeth hon ar gyfer cleifion ledled Cymru.*

Dr Laura Baker, CYCC Cymrawd Ymchwil Academaidd 2023-2028

Cefnogi'r Genhedlaeth Nesaf: Gwobrau Dechrau Gyrfa

Mae datblygu arweinwyr ymchwil y dyfodol yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol, ac eleni cyflwynwyd Gwobrau Dechrau Gyrfa CReSt yn llwyddiannus gan ddarparu 6-12 mis o gyllid i ymchwilwyr gyrfa gynnar. Yn dilyn galwad agored ym mis Mehefin 2025, cawsom 18 o geisiadau, sy'n dangos ehangder y dalent gyrfa gynnar ledled Cymru, yn ogystal â'n hapêl ryngwladol gynyddol, wrth i ddau ymgeisydd adleoli o dramor.

Ar ôl cyfweliadau ym mis Medi, dewiswyd pum enillydd, a ddechreuodd eu swyddi o fis Rhagfyr 2025 ymlaen:

- **Dr Danielle Harper**
  (Goruchwyliwr: yr Athro Deya Gonzalez, Abertawe)
- **Li Rong Tan**
  (Goruchwyliwr: yr Athro Andrew Sewell, Caerdydd)
- **Dr Julian Fischer**
  (Goruchwyliwr: yr Athro Alan Parker, Caerdydd)
- **Dr Xiaoyan Zhang**
  (Goruchwyliwr: yr Athro Aled Clayton, Caerdydd)
- **Dr Rosie Mundy**
  (Goruchwyliwr: yr Athro Alan Parker, Caerdydd)

Mae'r enillwyr gwobrau hyn yn cynrychioli dyfodol ymchwil canser drosiadol yng Nghymru – gan sbarduno syniadau ffres, arallgyfeirio setiau sgiliau, a chryfhau gallu gwyddonol ar draws canolfannau ymchwil Cymru.

> *"Mae derbyn y wobr hon yn gymaint o fendith gan ei bod yn caniatáu i mi drosi i'r rôl a'r amgylchedd ymchwil newydd yma. Mae cydweithio ag Imiwno-therapïau Feirysol a Therapiwteg Uwch (VITAL) a gweithio ar gynhyrchu cyfryngau oncolytig manwl gywir a phenodol yn gyflym yn fy rhoi mewn sefyllfa wych i barhau â fy ngyrfa ymchwil.*

Dr Julian Fischer,
Derbynnydd y Gronfa Datblygu Cysyniadau



Edrych tua'r dyfodol

Wrth i ni fyfyrio ar y cerrig milltir hyn, mae'r cyllid CReSt gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi galluogi CYCC i gyflymu twf, cydweithio, a buddsoddiad strategol mewn bobl dalentog sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru. Mae cyflawniadau eleni yn adlewyrchu ecosystem sy'n aeddfedu:

- Clinigydd-wyddonwyr gydag amser gwarchodedig
- Ton newydd o ymchwilwyr gyrfa gynnar
- Portffolio o waith peilot arloesol
- Cryfhau partneriaethau a gweledd cenedlaethol

Mae'r sylfeini yr ydym yn eu hadeiladu yn ein rhoi mewn sefyllfa gref i barhau i wneud cynnydd a, gyda'n gilydd, rydym yn cynyddu momentwm ledled Cymru.

Delwedd: Dr Julian Fischer, ymchwilydd CYCC a derbynnydd y Gronfa Datblygu Cysyniadau

Cynyddu capasiti ymchwil

Cefnogi ymchwil brechlyn canser cenhedlaeth nesaf

Mae'r Athro Andrew Godkin a'r Athro Awen Gallimore wedi sicrhau dyfarniad cyllid pum mlynedd mawr gan Cancer Research UK i ddatblygu mathau newydd o frechlynnau canser. Mae eu gwaith yn canolbwyntio ar wella sut mae'r system imiwnedd yn adnabod ac ymosod ar ganser trwy ddylunio brechlynnau sy'n ysgogi celloedd imiwnedd yn well. Gan weithio gyda Dr Bruce MacLachlan (ymchwilydd a ariannwyd gan CYCC, 2025) a phartneriaid rhyngwladol, bydd y tîm yn profi'r dulliau hyn gyda'r nod o ddatblygu brechlynnau ar gyfer canser y coluddyn.

Y nod yw creu brechlynnau “parod” y gellid eu defnyddio'n ehangach, yn hytrach na thriniaethau personol iawn. Mae'r rhaglen hefyd wedi derbyn cefnogaeth ychwanegol gan Gronfa Bowelbabe ar gyfer Cancer Research UK, gan helpu i symud yn agosach at frechlyn canser y coluddyn sydd ar gael yn ehangach.

Mae'r gwaith hwn hefyd wedi'i gysylltu'n agos â Chanolfan Ymchwil Canser Cymru trwy rôl arweinyddiaeth thema 2 CReSt yr Athro Gallimore, gan gefnogi cydweithio ar draws ymchwil canser yng Nghymru.

> *“Bydd y rhaglen hon yn caniatáu inni ymchwilio i'r ffyrdd y gellir optimeiddio celloedd T CD4+ i wella imiwnotherapi canser. Ein nod yn y pen draw yw datblygu brechlynnau sy'n hygyrch ac yn deg, gan gynnig manteision imiwnotherapi i gymuned llawer ehangach o gleifion.*
>
> Yr Athro Andrew Godkin



Defnyddio data i wella diagnosis o ganser

Mae Dr Arron Lacey, (ymchwilydd a ariannwyd gan CYCC, 2023-2025) a Dr Laura Baker (ymchwilydd a ariannwyd gan CYCC, 2023-28) ym Mhrifysgol Abertawe, yn arwain gwaith i wella'r ddealltwriaeth o sut mae cleifion yn cael diagnosis o ganserau gastroberfeddol (GI).

Dyfarnwyd cyfanswm o £25,000 i'r tîm gan Gronfa Adfer Canser y GIG a Sefydliad Meddygol Dewi Sant i archwilio Llwybrau tuag at Ddiagnosis a thueddiadau canser GI Uchaf ar lefel y boblogaeth ym Manc Data SAIL. Mae'r rhain yn brosiectau tair blynedd sy'n cynnwys cydweithrediad rhwng Prifysgol Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gyda'r nod o ddarganfod pa batrymau o'r llwybr diagnostig canser a thaith y claf y gellid eu harchwilio i ganfod canser yn gynharach a gwella canlyniadau.

Mae'r tîm hefyd wedi sicrhau ysgoloriaeth PhD a ariennir trwy gynllun Ysgoloriaeth Rhagoriaeth Ymchwil Prifysgol Abertawe (SURES) a ddechreuodd ym mis Hydref 2025 ac sy'n canolbwyntio ar gyfuno data genetig â chofnodion iechyd. Mae prosiect peilot eisoes yn mynd rhagddo gyda Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan, sy'n profi sut y gellir integreiddio data genomig gan gleifion canser yn ddiogel ym Manc Data SAIL.

Addasu feirysau i ymgysylltu â'r system imiwnedd

Ar ddiwedd 2025, cafodd y claf cyntaf ei drin mewn treial clinigol o therapi canser newydd sy'n seiliedig ar feirws a ddatblygwyd yn wreiddiol yn labordy arweinydd thema 2 CReSt CYCC, sef yr Athro Alan Parker, ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae'r driniaeth yn defnyddio feirws wedi'i addasu sy'n targedu celloedd canser a'u troi'n "ffatrïoedd" sy'n cynhyrchu cyffuriau gwrth-ganser yn uniongyrchol y tu mewn i'r tiwmor, ar yr un pryd â helpu'r system imiwnedd i ymosod arno.

Mae'r treial cam cynnar (ATTEST) yn cael ei gynnal yng Nghaerdydd gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gyda chefnogaeth Partneriaeth Ymchwil Canser Caerdydd. Dr Magda Meissner (ymchwilydd a ariannwyd gan CYCC 2021-2022) yw Prif Ymchwilydd treial ATTEST ar safle Caerdydd.

Datblygwyd y therapi gyntaf yng Nghaerdydd ac fe'i datblygwyd yn ddiweddarach gan Accession Therapeutics, sydd wedi derbyn €7.5 miliwn o gyllid Horizon Ewrop yn ddiweddar i gefnogi datblygiad pellach ac ehangu'r treial. Nod y dull hwn yw targedu tiwmorau'n fanylach ar yr un pryd â chyfyngu ar niweidio meinwe iach, gan gynnig cyfeiriad addawol newydd ar gyfer triniaeth canser.

> *"Mae TROCEPT-01 wedi'i ddylunio i weithredu cyn lleied â phosibl mewn meinweoedd iach a chymaint â phosibl yn y tiwmor. Golyga hyn fod y driniaeth hon yn addawol iawn wrth drin canserau ag anghenion clinigol heb eu diwallu, ac mae treial ATTEST yn cynnwys canserau anodd eu trin fel canserau pancreatig, yr ysgyfaint, y bledren, y pen a'r gwddf, endometriwm a cholangiocarsinomas.*

Dywedodd yr Athro Alan Parker, Athro Feiroleg Drosi ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrif Swyddog Gwyddonol Accession Therapeutics

Galluogi strategaethau newydd ar gyfer trin canser yr ymennydd

Mae Dr Mathew Clement (ymchwilydd a ariannwyd gan CYCC, 2023-2025) wedi derbyn grant Cyllid Sbarduno Ymddiriedolaeth Rosetrees o £30,000, sy'n cefnogi ymchwil cam cynnar addawol ac yn helpu i ddatblygu syniadau newydd ar adeg dyngedfennol. Mae'n gweithio gyda Dr Oommen Oommen a Dr Stephen Paisey ym Mhrifysgol Caerdydd i wella sut mae cyffuriau'n cyrraedd tiwmorau'r ymennydd.

Maen nhw'n canolbwyntio ar oresgyn system amddiffyn naturiol yr ymennydd (y rhwystr gwaed-ymennydd), sy'n amddiffyn yr ymennydd ond hefyd yn rhwystro llawer o driniaethau. Mae hwn yn fater pwysig mewn glioblastoma, sef math ffyrnig o ganser yr ymennydd nad oes llawer o opsiynau triniaeth ar gael ar ei gyfer.

Mae'r tîm wedi datblygu gronynnau bychain sy'n cario cyffuriau (nanoronynnau) sy'n gallu targedu celloedd tiwmor yn well ac eisoes wedi dangos canlyniadau addawol. Maen nhw bellach yn cymharu dwy ffordd o'u cyflwyno (trwy'r llif gwaed neu o dan y croen) i weld pa un sy'n gweithio orau.

Gan ddefnyddio delweddu uwch, byddant yn olrhain pa mor dda y mae pob dull yn cludo triniaeth i'r ymennydd. Y nod yw dod o hyd i ffyrdd mwy effeithiol o ddarparu cyffuriau a gwella canlyniadau i gleifion â chanser yr ymennydd.

Delwedd: Dr Mathew Clement, Cyn-fyfyriwr Ymchwil CYCC

Dathlu ail flwyddyn rhaglen Ffiseg Feddygol Radiotherapi Cymru (RaMP)

Mae'r rhaglen Ffiseg Feddygol Radiotherapi Cymru (RaMP) bellach yn ei hail flwyddyn, gan helpu i feithrin sgiliau ymchwil trwy ymgorffori prosiectau mewn hyfforddiant MSc Ffiseg Feddygol ym Mhrifysgol Abertawe. Nod y rhaglen, a ariennir gan Academi Hyrwyddo Radiotherapi Cymru (ARC), yw datblygu arweinwyr ymchwil y dyfodol.

Mae'r rhaglen, a gynhelir mewn partneriaeth â Chanolfan Ganser Felindre, Canolfan Ganser De-orllewin Cymru, a Chanolfan Ymchwil Canser Cymru, yn cynnig prosiectau myfyrwyr a ariennir, sy'n berthnasol yn glinigol a arweinir ar y cyd gan arbenigwyr academaidd ac arbenigwyr y GIG.

Cefnogir myfyrwyr i gyflwyno eu gwaith mewn cynadleddau, gan gynyddu eu profiad a gweledded ymchwil yng Nghymru. Mae'r rhaglen eisoes yn ehangu, gyda phrosiectau newydd bob blwyddyn a'r nod hirdymor o ddatblygu ymchwilwyr PhD y dyfodol a chryfhau ymchwil radiotherapi ledled y wlad.

"Mae RaMP yn bwysig oherwydd ei fod yn canolbwyntio ar weithlu radiotherapi'r dyfodol. Mae'r rhaglen yn caniatáu cyfleoedd ymchwil a rhwydweithio gwerthfawr i fyfyrwyr talentog, gan ddatblygu offer i'w defnyddio yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol mewn ffiseg feddygol. Cyrhaeddwyd targedau'r ddwy flynedd gyntaf, ac rydyn ni'n edrych ymlaen at ehangu'r rhaglen ymhellach yn y blynyddoedd nesaf.

Dr Owen Nicholas, cyd-arweinydd menter RaMP a phrif ymgeisydd ar gyfer dyfarniad RaMP ARC

Cefnogi triniaeth canser trwy dreialon clinigol yng Nghymru

Mae Canolfan Ymchwil Canser Cymru yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi treialon clinigol sy'n ceisio gwella triniaeth canser a chanlyniadau cleifion.

Ariennir treial PICCOS gan grant gwerth £1.9 miliwn gan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal (NIHR). Hap-dreial cam II dan reolaeth ydyw a gynhelir o 2022 i 2026 sy'n ymchwilio i gemotherapi mewnberitoneal wedi'i aerosoleiddio dan wasgedd (PIPAC), sef dull newydd o gyflwyno cemotherapi fel chwistrelliad mân yn syth i geudod yr abdomen yn ystod llawdriniaeth twll clo. Mae'r astudiaeth yn cymharu'r dull hwn, ochr yn ochr â chemotherapi systemig safonol, â thriniaeth safonol yn unig mewn cleifion â chanserau'r colon a'r rhefr, yr ofarïau a'r stumog sydd wedi lledaenu i'r peritonewm. Arweinir y treial gan Dr Sadie Jones (ymchwilydd a ariannwyd gan CYCC, 2025-28) a'r Athro Jared Torkington ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Bydd canlyniadau'r astudiaeth yn llywio strategaethau triniaeth yn y dyfodol ar gyfer cleifion â chlefyd peritoneol datblygedig ac yn cefnogi'r posibilrwydd o fabwysiadu'r dull cyflenwi hwn yn ehangach os dangosir budd clinigol.

Cyflymu arloesedd genomig mewn ymchwil canser

Mae Dr Kez Cleal (ymchwilydd a ariannwyd gan CYCC, 2023-25) wedi datblygu offeryn meddalwedd newydd, a ddisgrifir fel "Google Earth ar gyfer genomeg," sy'n helpu gwyddonwyr i archwilio data genetig yn gyflymach o lawer ac yn fwy eglur. Gall yr offeryn, sef Genome-Wide (GW), ddadansoddi symiau mawr o ddata DNA hyd at 100 gwaith yn gyflymach na'r dulliau cyfredol. Mae hyn yn ei gwneud hi'n haws sylwi ar newidiadau genetig pwysig sy'n gysylltiedig â chanser, yn enwedig newidiadau cymhleth sy'n anodd eu canfod gydag offer presennol.

Trwy ganiatáu i ymchwilwyr weld y newidiadau hyn mewn amser real, fe allai'r feddalwedd gyflymu ymchwil canser a gwella diagnosis. Mae'r tîm bellach yn ei defnyddio i helpu i adnabod cleifion sydd â phatrymau genetig anarferol a deall yn well sut mae canser yn datblygu, gyda'r nod o wella triniaethau yn y dyfodol.

Sbarduno sgrinio canser yr ysgyfaint yn deg yng Nghymru

Mae Cymru yn cyflwyno rhaglen genedlaethol ar gyfer sgrinio canser yr ysgyfaint, gan adeiladu ar gynllun peilot llwyddiannus a arweiniwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg gyda chymorth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Caerdydd. Canolbwyntiodd y cynllun peilot ar ganfod canser yr ysgyfaint yn gynharach, pan fydd triniaeth yn fwy effeithiol.

Cyfranwyr allweddol i'r gwaith hwn oedd yr Athro Kate Brain (arweinydd thema 6 CReSt CYCC) a'r Cymrawd Ymchwil Dr Grace McCutchan (ymchwilydd a ariannwyd gan CYCC, 2018-25), a ddaeth ag arbenigedd gwyddor ymddygiad i'r Grŵp Llywio Clinigol.

Fe wnaeth gwaith Dr McCutchan hefyd helpu i sicrhau bod gwybodaeth i gleifion yn glir, yn hygyrch, ac wedi'i chynllunio i annog cyfranogiad, yn enwedig ymhlith cymunedau sydd mewn perygl uwch o gael diagnosis hwyr o ganser yr ysgyfaint. Mae ei phwyslais ymchwil ehangach ar ddiagnosis cynnar, anghydraddoldebau iechyd, a rhoi'r gorau i ysmygu wedi helpu i lunio dull sgrinio tecach sy'n canolbwyntio ar y claf.

Yn ddiweddar, cydnabuwyd llwyddiant y prosiect gan Wobr Rhagoriaeth mewn Gofal Cleifion 2025 Coleg Brenhinol y Meddygon am ymgysylltu â chleifion. Mae Dr Grace McCutchan hefyd wedi cael gwahoddiad i arddangos y gwaith hwn fel rhan o fodiwl hyfforddi ar arfer gorau ym maes Cynnwys ac Ymgysylltu â Chleifion a'r Cyhoedd, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan yr Ysgol Meddygaeth, Prifysgol Caerdydd.

Hybu canfod yn gynnar a lleihau anghydraddoldebau mewn canser yr arennau

Sicrhaodd Dr Huw Morgan (ymchwilydd a ariannwyd gan CYCC, 2024-5), trwy gyllid pontio gan Ganolfan Ymchwil Canser Cymru, Gymrodoriaeth Uwch gystadleuol gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i fynd i'r afael â diagnosis hwyr mewn canser yr arennau ym mis Hydref 2025.

Erbyn hyn, canser yr arennau yw'r chweched canser mwyaf cyffredin yn y Deyrnas Unedig, ac eto nid yw'n cael ei ymchwilio a'i gyllido cymaint. Mae bron i hanner y cleifion yn cael diagnosis hwyr, sy'n golygu bod opsiynau triniaeth yn gyfyngedig a chyfraddau goroesi yn gostwng yn sylweddol. Mewn cyferbyniad, pan gaiff ei adnabod yn gynnar, gall cyfraddau goroesi fod yn fwy na 90%. Er gwaethaf hyn, nid oes prawf diagnostig syml, anymwthiol ar gael ar hyn o bryd i gefnogi canfod yn gynnar.

Bydd cymrodoriaeth tair blynedd Dr Huw Morgan yn canolbwyntio ar ddilysu panel o fiomarcwyr wrinol sy'n gallu canfod canser yr arennau ar ei gamau cynharaf. Trwy ddadansoddi samplau wrin o garfanau cleifion a phartneriaid biobanc sydd wedi'u nodweddu'n dda, nod ei dîm yw sefydlu arwydd cadarn, clinigol ddibynadwy a allai fod yn sail i brawf diagnostig cost isel, hygyrch sy'n addas i'w ddefnyddio mewn meddygfeydd teulu a lleoliadau gofal iechyd cymunedol. Bydd y gwaith hwn yn sefydlu ffocws craidd ei grŵp ymchwil, yn canolbwyntio ar ddiffinio bioleg ffurfio tiwmorau cynnar, yn enwedig bôn-gelloedd canser a phoblogaethau sy'n cychwyn tiwmorau, i ddatblygu darganfod biofarcwyr a nodi targedau therapiwtig.

> *Mae ein gwaith yn ymwneud â rhoi offeryn syml i glinigwyr a allai drawsnewid deilliannau i gleifion – os gallwn wneud diagnosis o ganser yr arennau'n gynharach, gallwn achub bywydau.*

Dr Huw Morgan

Broceru cydweithrediad

Cynhadledd Ymchwil Canser Cymru 2026

Parhaodd Canolfan Ymchwil Canser Cymru i adeiladu ar lwyddiant ein cynhadledd flynyddol ym mis Mawrth 2026, gan gyflwyno digwyddiad effeithiol arall a ddangosodd ddyfnder ac ehangder ymchwil canser ledled Cymru ar yr un pryd â dod ag ymchwilwyr, clinigwyr, partneriaid yn y diwydiant ac elusennau ynghyd.

Croesawodd cynhadledd 2026, a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Vale yn Hensol, ychydig o dan 300 o gynrychiolwyr, gan gynnwys mynychwyr o Fangor, Wrecsam ac Aberystwyth. Roedd y rhaglen yn cynnwys cymysgedd amrywiol o gyflwyniadau ymchwil a sesiynau rhyngweithiol. Derbyniwyd a chyhoeddwyd 103 o grynodebau hefyd yn llyfryn crynodebau'r gynhadledd, a dewiswyd 60 o bosteri ymchwil i'w harddangos yn y digwyddiad.

Roedd cyfres gref o brif sgyrsiau'n rhan ganolog o'r rhaglen. Roedd y rhain yn cynnwys yr Athro Rajesh Jena (Prifysgol Caergrawnt), a archwiliodd rôl deallusrwydd artiffisial wrth drawsnewid radiotherapi; yr Athro Fonesig Theresa Marteau (Prifysgol Caergrawnt), a aeth i'r afael â her newid ymddygiad ar raddfa fawr i atal canser; yr Athro Kevin Harrington (ICR/The Royal Marsden), a dynnodd sylw at ddatblygiadau o ran cyfuno radiotherapi ac imiwnotherapi; a Dr Alastair Lamb, a gyflwynodd ar broffilio gofodol digidol a'i gymhwyso wrth ddeall bioleg canser y prostad.

Parhaodd y gynhadledd i flaenoriaethu cynnwys cleifion a'r cyhoedd, gyda chyfraniad ysgogiadol gan Molly Fenton fel llais y claf. Daeth ei safbwynt hi ar fyw gyda thiwmor yr ymennydd â phrofiad bywyd i flaen y trafodaethau, gan atgyfnerthu pwysigrwydd ymgorffori gwybodaeth gan gleifion wrth lunio blaenoriaethau ymchwil a chyflawni.

Cyflwynwyd gwobrau i gydnabod cyfraniadau rhagorol ar draws ymchwil a Chynnwys Cleifion a'r Cyhoedd, gan gynnwys gwobrau a ddyfarnwyd er cof am Bartner Ymchwil Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd CYCC, sef Sue Campbell, a Dr Laura Bunting o Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a oedd ill dwy'n gefnogwyr brwd CYCC ac wedi ymrwymo i helpu i ddatblygu ymchwil canser a gwella canlyniadau i gleifion. Cafwyd ymgysylltiad cryf hefyd gan ymchwilwyr gyrfa gynnar mewn sesiwn bwrpasol i ymchwilwyr gyrfa cynnar a chanol gyrfa (EMCR) a roddodd cyfle i'r cyfranogwyr 'Gyfarfod â'r arbenigwr' mewn ystod o wahanol bynciau.

Cefnogwyd y gynhadledd gan bartneriaid a noddwyr allweddol, gan gynnwys noddwr platinwm Menter Canser Moondance a gynhaliodd sesiwn sbotolau yn ystod y gynhadledd a roddwyd gan y Cyfarwyddwr Clinigol, yr Athro Jared Torkington, a gyflwynodd CADARN fel dull beiddgar, ar lefel system o ddatgloi potensial llawn ymchwil canser ledled Cymru. Daeth y gynhadledd i ben gyda thrafodaeth flaengar ynghylch a ddylai dilyniannu genom cyfan ddod yn arfer safonol yng Nghymru, a gadeiriwyd gan Dr James Calvert, Dirprwy Brif Swyddog Meddygol Cymru.

Amlygodd Cynhadledd Ymchwil Canser Cymru 2026 y cynnydd sy'n cael ei wneud, ond hefyd y penderfyniad ar y cyd i droi ymchwil yn effaith go iawn ar gyfer cleifion ledled Cymru.

"Roedd yn anhygoel cael y cyfle i fod yng nghynhadledd CYCC a gwrando ar siaradwyr amrywiol a datblygiadau posibl, a chael siarad fel claf. Soniodd fy araith am y bwlch cyfathrebu rhwng y gweithwyr proffesiynol a'r cleifion. Rhwng ystadegau brawychus a llawer o achosion canser yn cynyddu ymhlith y boblogaeth iau, roedd bod yn y gynhadledd honno yn rhoi gobaith i rywun fel fi, a gallwn ddangos ochr ddynol y sgwrs hon sydd wedi'i stigmateiddio'n drwm yn ein cymdeithas. Ac roedd y ffaith ei bod ar gyfer Cymru, sef cenedl sy'n mynd yn angof yn aml yn y sgwrs neu a welir fel is-adran, yn ei gwneud yn fwy arbennig fyth.

Molly Fenton,
eiriolwr cleifion

Llwyddiant yr MDRG Wroleg wrth ddatblygu ymchwil canser y prostad

Mae Grŵp Ymchwil Amlddisgyblaethol Wroleg (MDRG) CYCC yn parhau i dyfu fel grŵp cydweithredol, gan ddod ag ymchwilwyr ynghyd ledled Cymru i ddatblygu dulliau newydd o ymchwilio a thrin canser y prostad.

Yn ystod y misoedd diwethaf, sicrhaodd y grŵp dri grant, gan gryfhau ei bortffolio a chefnogi datblygiad ymchwil arloesol, drosiadol sy'n canolbwyntio ar imiwnoleg.

Dyfarnwyd dau grant prosiect mawr gan Prostate Cancer UK. Mae'r cyntaf (£356,361 dros 36 mis), a ddyfarnwyd ym mis Gorffennaf 2025 ac a fydd yn dechrau ym mis Chwefror 2026, yn cael ei arwain gan Dr Helen Pearson (Cyfarwyddwr Cyswllt CYCC) a Dr Girish Patel. Mae'n ymchwilio i dargedu pwynt gwirio imiwnedd CD200 fel therapi newydd ar gyfer canser y prostad, gyda chyd-ymchwilwyr yn cynnwys yr Athrawon Rob Jones, John Staffurth, a Dr Toby Phesse.

Mae'r ail (£468,325 dros 36 mis), a fydd yn dechrau ym mis Tachwedd 2025, yn cael ei arwain gan Dr Toby Phesse gyda Dr Helen Pearson a Dr Karl Wilert fel cyd-ymchwilwyr. Mae'n canolbwyntio ar dargedu signalau FZD7/Wnt i drin canser metastatig y prostad.

Yn ogystal, sicrhaodd y grŵp ysgoloriaeth PhD gwerth £100,000 gan Ymchwil Canser Cymru (36 mis), yn dechrau mis Hydref 2025. Dan arweiniad Dr Oommen Oommen gyda Dr Helen Pearson fel cyd-ymchwilydd, bydd y prosiect hwn yn modelu amgylcheddau tiwmorau'r prostad er mwyn deall rhyngweithiadau imiwnedd yn well a phrofi therapïau posibl.

Dathlu blwyddyn gyntaf y Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar a Chanol Gyrfa

Mae Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar a Chanol Gyrfa (EMCR) Canolfan Ymchwil Canser Cymru (CYCC) wedi cwblhau ei flwyddyn gyntaf, gan helpu ymchwilwyr ledled Cymru i gysylltu, rhannu syniadau, a meithrin cydweithrediadau.

Mae'r rhwydwaith yn cynnig sgyrsiau rheolaidd, hyfforddiant, a chyfleoedd i gyflwyno ymchwil, gyda sesiynau'n cwmpasu cynnwys cleifion a'r cyhoedd, defnyddio adnoddau fel Biofanc Canser Cymru, uniondeb ymchwil, a sgiliau fel cyfathrebu, arweinyddiaeth, a gwneud cais am gyllid. Mae cynllun mentora a lansiwyd ym mis Tachwedd 2025 yn darparu cymorth strwythuredig ar gyfnodau gyrfa allweddol.

Yn ystod y flwyddyn, mae 12 o ymchwilwyr o brifysgolion ledled Cymru wedi cyflwyno eu gwaith, gan gwmpasu ystod eang o bynciau o wyddor darganfod yn y labordy i ymchwil glinigol ac ymddygiadol. Roedd sesiynau "Cyfarfod â'r Arbenigwr" yng Nghynhadledd Ymchwil Canser Cymru hefyd wedi caniatáu i'r aelodau gael cyngor uniongyrchol gan uwch ymchwilwyr ar bynciau fel cydweithio â diwydiant a datblygu ceisiadau am gyllid.

Mae'r rhwydwaith yn parhau i gefnogi'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr canser, gyda chynlluniau i ehangu gweithgareddau, gan gynnwys siaradwyr gwadd ac encil ysgrifennu EMCR.

> *"Mae Biofanc Canser Cymru yn hynod falch o'n partneriaeth gydweithredol barhaus â rhwydwaith EMCR ac yn cydnabod gwerth y gymuned ymchwil hanfodol hon. Rydym bob amser yn ddiolchgar am y cyfleoedd a ddarperir i gysylltu ag ymchwilwyr canser lleol a'u cefnogi, gan sicrhau bod y biofanc ar flaen y gad o ran ymchwil arloesol yng Nghymru.*
>
> 
>
> Abigail MacArthur,
> Biofanc Canser Cymru

Diwrnod Rhwydweithio Ymchwilwyr CYCC 2025: cysylltu ymchwilwyr ledled Cymru

Cynhaliodd CYCC ei Diwrnod Rhwydweithio blynyddol ar gyfer Ymchwilwyr ar 23 Hydref 2025, gan ddwyn ynghyd 20 o ymchwilwyr a ariennir a chyn-fyfyrwyr ar gyfer digwyddiad wyneb yn wyneb a gynlluniwyd i annog cydweithio a chyfnewid gwybodaeth ledled Cymru. Cyflwynodd y mynychwyr gyfres o gyflwyniadau cyflym, gan roi cipolwg eang ar weithgarwch ymchwil canser cyfredol, yn amrywio o wyddor foleciwlaidd i ddulliau a ysgogir gan ddata.

Tynnodd y rhaglen sylw hefyd at adnoddau allweddol, gyda chyfraniadau gan dîm Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd CYCC a Biofanc Canser Cymru. Cyflwynodd sesiwn ryngweithiol a arweiniwyd gan Dr Luned Badder y Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar a Chanol Gyrfa (EMCR), gan amlinellu'r cymorth sydd ar gael, strategaethau gyrfa ymarferol, a chynlluniau ar gyfer cynllun mentora sydd ar ddod. Roedd Arolwg Mentimeter* a gynhaliwyd yn ystod y sesiwn wedi caniatáu i'r mynychwyr raddio anghenion hyfforddiant yn ôl perthnasedd, gan roi gwybod i'r pwyllgor EMCR am y pynciau mwyaf buddiol ar gyfer sesiynau hyfforddiant yn y dyfodol a fydd yn ffurfio gweithgarwch y rhwydwaith EMCR yn y dyfodol.

Roedd y digwyddiad yn cynnwys 11 cyflwyniad gan gyn-fyfyrwyr a ddangosodd ymchwil a methodolegau arloesol, gan atgyfnerthu dyfnder ac amrywiaeth cymuned CYCC. Roedd cyfleoedd rhwydweithio drwy gydol y dydd wedi cryfhau cysylltiadau ymhlith y cyfranogwyr a chefnogi datblygiad cydweithrediadau yn y dyfodol. Roedd yr adborth yn gadarnhaol, gyda 100% o'r ymatebwyr yn adrodd bod y digwyddiad yn ddefnyddiol ac yn tynnu sylw at werth ymgysylltu wyneb yn wyneb.

> *Fe wnes i fwynhau'r lleoliad a'r gweithgarwch anffurfiol, a helpodd i ysgogi sgyrsiau heb bwysau. Roedd nifer dda o fynychwyr, felly roedd yn haws siarad â'r rhan fwyaf o bobl yn yr ystafell rywbryd yn ystod y dydd. Fe wnes i fwynhau'r cyflwyniadau cyflym yn arbennig – roedd ciplun 5 munud o ymchwil pawb yn fuddiol iawn i ddeall eu prif nodau.*
>
> Adborth arolwg dienw gan un o fynychwyr y Diwrnod Rhwydweithio Ymchwilwyr

* RND – Canlyniadau arolwg Mentimeter

Pwnc hyfforddi	Perthnasedd (1 = lleiaf; 5 = mwyaf)
Ysgrifennu grant	4
Digwyddiad rhwydweithio	3.5
Addysgu	2.4
Sgiliau arweinyddiaeth	3.3
Ysgrifennu cymrodoriaeth	4
Hyfforddiant cyfryngau	2.6
Ymgysylltu â'r cyhoedd	3.3

Partneriaeth Ymchwil Canser Caerdydd: cryfhau ymchwil drosi yng Nghymru

Mae Hyb Ymchwil Canser Caerdydd wedi cael ei ail-lansio fel Partneriaeth Ymchwil Canser Caerdydd (CCRP), gan ddod â Phrifysgol Caerdydd, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ynghyd i gysylltu ymchwil a gofal cleifion yn well. Nod y bartneriaeth yw cyflymu ymchwil drosi – gan droi darganfyddiadau labordy yn driniaethau go iawn – ar yr un pryd â gwella mynediad at dreialon clinigol a denu buddsoddiad i Gymru.

Mae CYCC wedi chwarae rhan allweddol wrth ffurfio a chefnogi CCRP, gyda Chyfarwyddwr CYCC, yr Athro Mererid Evans, yn ymgymryd â rôl flaenllaw wrth helpu i gynyddu gallu ymchwil, meithrin cydweithio, a sbarduno cynnydd o ymchwil i fudd i gleifion. Mae'n parhau i gyfrannu trwy rolau ar y cyd, gan gynnwys swydd Cymrawd Ymchwil Clinigol, ac ymwneud yn barhaus yng ngweithgareddau CCRP.

Ers ei lansio yn 2025, mae CCRP wedi sefydlu strategaethau data a phartneriaethau ffurfiol, gan gadarnhau ei statws fel prif ysgogwr ymchwil ac arloesedd canser yng Nghymru.

"Roedd lansio CCRP yn ddigwyddiad ysbrydoledig. Gadewais gan deimlo ein bod ni wedi tynnu llinell yn y tywod – dechrau newydd lle'r ydym yn rhoi ein troed orau ymlaenaf, fel un tîm unedig sydd wedi ymrwymo i gyflawni ymchwil o'r fainc i erchwyn y gwely yng Nghaerdydd. Roedd penderfyniad ar y cyd i sianelu ein hymdrechion i ddatblygu meddyginiaethau ac arferion gorau newydd er budd cleifion, ar yr un pryd â meithrin, denu a grymuso'r dalent orau. Trwy feithrin y genhedlaeth nesaf o arweinwyr canser yma yng Nghaerdydd, gallwn barhau i yrru ein huchelgais ymlaen gydag egni a phwrpas o'r newydd.

Yr Athro Alan Parker, Arweinydd Thema 2 CReSt, Pennaeth Canserau Solet a Chyfarwyddwr Uned Feiroleg Gymhwysol Cymru (WAVU) ym Mhrifysgol Caerdydd



Cyflawni gweithgarwch sy'n galluogi ymchwil

Canfyddiadau arolwg PIRIT: defnydd, cyrhaeddiad a gwerth y Pecyn Cymorth Effaith Cynnwys y Cyhoedd mewn Ymchwil

Datblygwyd y Pecyn Cymorth Effaith Cynnwys y Cyhoedd mewn Ymchwil (PIRIT) ar y cyd gan gyfranwyr cyhoeddus a thimau yn CYCC a Chanolfan Ymchwil Marie Curie (MCRC) i gynorthwyo ymchwilwyr ac ymarferwyr i gynllunio, olrhain a myfyrio ar gynnwys y cyhoedd mewn ymchwil, gyda phwyslais arbennig ar ddeall a dangos tystiolaeth o'i effaith. Mae PIRIT wedi bod yn llwyddiannus iawn ac wedi cyflawni cyrhaeddiad rhyngwladol cryf, ar ôl cael ei lawrlwytho dros 2542 o weithiau ar draws 37 o wledydd.



1. Awstralia
2. Awstria
3. Bangladesh
4. Gwlad Belg
5. Brasil
6. Canada
7. Tsieina
8. Y Weriniaeth Tsiec
9. Denmarc
10. Ethiopia
11. Y Ffindir
12. Ffrainc
13. Yr Almaen
14. Ghana
15. India
16. Iwerddon
17. Yr Eidal
18. Japan
19. Lwcsembwrg
20. Malawi
21. Yr Iseldiroedd
22. Norwy
23. Pacistan
24. Portiwgal
25. Rwmania
26. Seychelles
27. Singapore
28. De Affrica
29. De Korea
30. Sbaen
31. Sweden
32. Y Swistir
33. Gwlad Thai
34. Uganda
35. Y Deyrnas Unedig
36. Unol Daleithiau America
37. Zimbabwe

> *"Yn ogystal â helpu i olrhain y broses o gydlynu Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd ar gyfer nifer o astudiaethau ymchwil mewnol ac allanol, mae'r offeryn wedi fy helpu i ddangos faint o amser ac ymdrech sy'n mynd i gydlynu Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd ar gyfer pob astudiaeth, sydd yn ei dro wedi fy helpu i ddilysu cyllid ar gyfer rôl cydlynydd Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd."*
>
> Defnyddiwr PIRIT

I asesu sut mae PIRIT yn cael ei ddefnyddio'n ymarferol a'r gwerth y mae'n ei ddarparu, cynhaliwyd arolwg defnyddwyr rhwng 29 Ebrill a 19 Gorffennaf 2025, a gafodd 85 o ymatebion.

Roedd yr ymatebwyr wedi'u gwasgaru'n eang yn ddaearyddol, gan gynnwys ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn ogystal ag yn rhyngwladol yn Iwerddon, Sbaen, yr Almaen, Ffrainc a Malawi. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod PIRIT yn cyrraedd cynulleidfa amrywiol, a bod mwyafrif y defnyddwyr wedi'u lleoli mewn addysg uwch neu leoliadau coleg. Mae'r dosbarthiad hwn yn dangos bod y pecyn cymorth yn cael ei gyrchu ar draws amgylchedd ymchwil a chynnwys y cyhoedd eang.

Roedd defnydd o'r pecyn cymorth yn amrywio yn ôl elfen. Roedd tua thraean o'r ymatebwyr (31%) yn defnyddio'r offeryn cynllunio, gan amlaf ar draws un i dri phrosiect, er ei fod hefyd yn cael ei ddefnyddio mewn hyfforddiant, gwaith cyn ymgeisio a gweithgareddau dysgu. Yn bwysig, fe'i defnyddiwyd ar ddechrau prosiectau ac yn ôl-weithredol i gefnogi myfyrio. Disgrifiodd un defnyddiwr sut oedd yn eu helpu i "fyfyrio ar ymwneud hyd yn hyn... a nodi ble y gallem gynnwys y cyhoedd ymhellach."

Roedd nifer fwy yn defnyddio'r offeryn olrhain, sef 47% o'r ymatebwyr. Fe'i gwerthfawrogwyd am helpu i ddangos tystiolaeth a chyfleu effaith Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd, gan gefnogi myfyrio, adrodd, a thrafod o fewn timau. Tynnodd defnyddwyr sylw hefyd at ei rôl wrth amlygu'r amser a'r ymdrech sy'n gysylltiedig â chydlynu cynnwys, gan helpu i gyfiawnhau rolau ac adnoddau Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd pwrpasol. Addasodd grŵp llai (13%) PIRIT i'w systemau eu hunain – er enghraifft drwy ei drosi'n ddogfennau PDF, ei ymgorffori mewn cronfeydd data cyfranwyr cyhoeddus, neu ei gysylltu ag offer adborth. Mae hyn yn dangos hyblygrwydd y pecyn cymorth a'r ffaith ei bod yn hwylus ei integreiddio i lifoedd gwaith presennol.

Yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau'n dangos bod PIRIT yn cael ei ddefnyddio ar draws sectorau i gryfhau myfyrio, gwella adrodd, a dangos tystiolaeth well o effaith cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil. Er bod yr offeryn cynllunio'n cael ei ddefnyddio'n llai aml na'r offeryn olrhain, mae'r ddau'n cefnogi arferion Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd mwy strwythuredig ac ystyrlon.

Mae'r pecyn cymorth ar gael i'w lawrlwytho o **wefan Prifysgol Caerdydd**.

Sefydliadau sy'n defnyddio PIRIT



A ddefnyddioch chi'r offeryn cynllunio i fyfyrio ar y gweithgarwch cynnwys y cyhoedd bwriadedig a gwirioneddol?



Ydych chi'n bwriadu defnyddio'r Offeryn Olrhain PIRIT ar gyfer astudiaeth neu brosiect yn y dyfodol?



Blwyddyn yn y tîm Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd gan Dr Sally Anstey, Arweinydd Lleyg Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd CYCC

Cefais yr anrhydedd o gymryd drosodd y rôl Partner Ymchwil Lleyg Arweiniol o'r ddisglair Julie Hepburn ar 17 Mawrth 2025. Gweithredodd Julie fel fy mentor a'm cynghorydd am y misoedd cyntaf a chynigiodd y Partneriaid Ymchwil presennol (Bob McAlister, Kathy Seddon, Sarah Peddle, Jim Elliot a Mark Edwards) lawer o ddoethineb ac arweiniad.

Mae eleni wedi bod yn heriol, yn gyffrous ac yn gyfle gwych i ni fel Partneriaid Ymchwil. Mae ein rôl yn parhau i ganolbwyntio ar gynghori, cefnogi a chyfeirio ymchwilwyr at adnoddau a rhwydweithiau sefydledig yr ydym yn cynnal perthnasoedd gwaith cryf â nhw. O ganlyniad, mae'r Grŵp Ymateb Cyflym mewnol – a sefydlwyd yn wreiddiol i leihau oedi a rhoi cyngor prydlon i ymchwilwyr sy'n gweithio yn unol â therfynau amser cyllido tynn – wedi cael ei derfynu bellach. Fe'i disodlwyd gan Glinigau Cynnwys y Cyhoedd ar gyfer ymchwilwyr, a gyflwynwyd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, sy'n darparu llwybr mwy strwythuredig ar gyfer cymorth ac arweiniad.

Rydym wedi adeiladu ar sylfeini craidd presennol gweithgarwch Cynnwys ac Ymgysylltu â Chleifion a'r Cyhoedd mewn perthynas ag ymchwilwyr trwy themâu CReSt, y Rhwydwaith Ymchwilwyr Canser Gyrfa Gynnar a Chanol Gyrfa ac wedi bod yn ymwneud yn ddiweddar â recriwtio a sefydlu ymchwilwyr y Gwobrau Cychwyn Gyrfa a'r Gronfa Datblygu Cysyniadau a ariennir gan CYCC sydd wedi'u lleoli ledled Cymru ym Mangor, Caerdydd ac Abertawe.Mae ymgysylltiad yn parhau gydag, er enghraifft, Marie Curie, SAIL, ECMC, Felindre, Biofanc Canser Cymru a Phartneriaeth Genomeg Cymru.

Rydym hefyd wedi bod yn rhan o adolygu ceisiadau ymchwil i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a sefydliadau trydydd sector fel yr Elusen Ymchwil Tiwmorau'r Ymennydd o safbwynt Cynnwys ac Ymgysylltu â Chleifion a'r Cyhoedd.

Rydym wedi bod yn ymwneud yn fwy gweithredol â hyrwyddo llais grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol mewn Cynnwys ac Ymgysylltu â Chleifion a'r Cyhoedd ym maes Ymchwil Canser, gan ganolbwyntio'n benodol ar ffyrdd o gynyddu amrywiaeth a chynhwysiant. Rydym wedi bod yn bresennol yn rheolaidd yn y Ffair Iechyd Cymunedau Ethnig Leiafrifol, gan sefydlu cysylltiadau â llawer o grwpiau gan gynnwys y Rhwydwaith Menywod Mwslimaidd, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Chwaraeon Anabledd Cymru, pobl ifanc o ysgolion lleol Caerdydd, Tîm y Porth Cymunedol ac aelodau'r gymuned LHDTC+. Rydym wedi cael ein cynorthwyo â'r gweithgarwch hwn gan ein Partneriaid Arweiniol Academaidd: Dr Pam Smith, Dr Grace McCutcheon a Dr Sarah Fry.

Mae ein holl bartneriaid ymchwil presennol wedi bod yn ddylanwadol ac wedi cyfrannu'n weithredol at lunio offer addysgol Cynnwys ac Ymgysylltu â Chleifion a'r Cyhoedd, gweithdai ymchwilwyr, dosbarthiadau meistr a chyflwyniadau mewn cynadleddau wyneb yn wyneb ac yn rhithwir, gan sicrhau cyrhaeddiad ychydig yn ehangach i ni ledled Cymru. Rydym bellach yn aelodau gwahoddedig o Grŵp Trawsbleidiol Llywodraeth Cymru ar Ganser ac yn ymwneud ag ymgynghoriadau Comisiwn Bevan.

Yn anffodus, rydym wedi colli un o'n Partneriaid Ymchwil gwerthfawr eleni, sef Sue Campbell, cymeriad cryf a dylanwadol ac eiriolwr nerthol dros lais y claf ym maes iechyd a gofal cymdeithasol – mae hi wedi gadael etifeddiaeth ryfeddol i CYCC a llawer o atgofion melys. Mae dau o'n Partneriaid Ymchwil doeth a gwybodus iawn, sef Jim a Mark, wedi ymddiswyddo yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ond wedi cytuno i aros gyda ni fel Llysgenhadon Ymchwil sy'n rhoi cyngor arbenigol ad hoc. Felly, rydym yn cadw eu harbenigedd.

Wrth symud ymlaen, rydym wedi llwyddo i recriwtio Arweinydd Lleyg newydd a dau Bartner Ymchwil newydd, ac rydym wrthi ar hyn o bryd yn cwblhau manylion eu penodiadau. Byddant yn adnewyddu ein tîm ac yn dod â gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau ychwanegol i CYCC.

Delwedd: Dr Sally Anstey, Arweinydd Lleyg Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd CYCC a Bob McAlister, Partner Ymchwil Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd CYCC yn y Ffair Iechyd Cymunedau Ethnig Leiafrifol.

Ymgysylltu cymunedol CYCC: ehangu cynhwysiant a chyrraedd cymunedau amrywiol

Mae CYCC yn parhau i gryfhau ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant trwy raglen gynyddol o weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned a gynlluniwyd i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach a mwy amrywiol ledled Cymru. Gan adeiladu ar allgymorth sefydledig, mae ymdrechion diweddar wedi rhoi pwyslais cryfach ar ymgysylltu â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a chodi ymwybyddiaeth o'r gwaith y mae'r Ganolfan yn ei wneud a gyrfaoedd ym maes ymchwil canser.

Ym mis Gorffennaf 2025, cymerodd CYCC ran yn Ysgol Haf Ymddiriedolaeth Sutton am y tro cyntaf, gan gyflwyno sesiwn ymchwil canser ryngweithiol a diddorol i hanner cant o fyfyrwyr Blwyddyn 12 o gefndiroedd llai breintiedig. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys helpu'r myfyrwyr i dynnu DNA o fefus a chwarae gêm diagnosis canser cleifion. Rhoddodd y rhaglen wybodaeth werthfawr am yrfaoedd ym maes ymchwil, ac roedd ymchwilwyr CYCC, sef Dr Mathew Clement, Dr Jaya Vangara a Dr Kate Liddiard, wrth law i ateb cwestiynau a rhannu eu profiadau o lwybrau gyrfa ymchwil.

Parhaodd CYCC i gynnal ei phresenoldeb cryf mewn cymunedau lleol hefyd, gan gymryd rhan mewn mentrau fel Wythnos Gyrfaoedd a Modelau Rôl Grangetown (Chwefror 2026) a'r digwyddiad "Bod yn Wyddonydd" yng Nghaerdydd (Chwefror 2026). Roedd y gweithgareddau'n cynnig profiadau ymarferol a chyfle i ryngweithio'n uniongyrchol ag ymchwilwyr, gan helpu i ysbrydoli pobl ifanc i ystyried dyfodol ym meysydd Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM).

Estynnodd ymgysylltiad CYCC i lwyfannau cenedlaethol a diwylliannol hefyd, gan gynnwys cymryd rhan yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam (Awst 2025), lle y daeth gweithgareddau rhyngweithiol ag ymchwil canser yn fyw i gynulleidfa gyhoeddus eang, gan roi cyfle i dîm yr Hyb ymarfer cyfathrebu yn Gymraeg. Mae'r tîm hefyd wedi cyfrannu at ymgysylltu ehangach â'r cyhoedd trwy ddigwyddiadau fel y Ffair Iechyd Cymunedau Ethnig Leiafrifol (MEC) (Hydref 2025), gan gryfhau cysylltiadau â chymunedau nad ydynt yn cael eu cynrychioli digon mewn ymchwil yn aml.

Trwy'r mentrau hyn, mae CYCC yn parhau i wneud cynnydd ystyrlon wrth ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn ein strategaeth ymgysylltu, gan sicrhau bod ymchwil canser yn hygyrch, yn gynhwysol ac yn adlewyrchu'r cymunedau amrywiol y mae'n eu gwasanaethu ledled Cymru.



Casgliad

Mae'r cyfnod 2025-2026 wedi bod yn un o gydgrynhoi a thwf cyson i Ganolfan Ymchwil Canser Cymru Gan adeiladu ar y sylfeini a osodwyd yn ystod 2020-2025 a Strategaeth Ymchwil Canser Cymru (CReSt), rydym wedi parhau i gryfhau'r seilwaith a'r partneriaethau sy'n cefnogi ymchwil canser ledled Cymru.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r gymuned ymchwil wedi dod yn fwy cysylltiedig. Mae buddsoddi mewn ymchwilwyr gyrfa gynnar a chanol gyrfa, trwy gynlluniau fel y Gwobrau Dechrau Gyrfa a'r Gronfa Datblygu Cysyniadau, wedi cefnogi datblygiad arweinwyr ymchwil y dyfodol. Mae Cynhadledd Ymchwil Canser Cymru a'r Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar a Chanol Gyrfa hefyd wedi darparu cyfleoedd pwysig i gydweithio a chyfnewid.

Rydym wedi parhau i gryfhau Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd, ochr yn ochr â phwyslais clir ar degwch, amrywiaeth a chynhwysiant, er mwyn sicrhau bod ymchwil yn cael ei ffurfio gan anghenion a phrofiadau pobl y mae canser yn effeithio arnynt.

Mae cydweithio ar draws prifysgolion, sefydliadau'r GIG, diwydiant a phartneriaid y trydydd sector yn parhau i fod yn ganolog i'n dull gweithredu. Mae mentrau fel Partneriaeth Ymchwil Canser Caerdydd a rhwydweithiau cenedlaethol ehangach yn helpu i gydweddu gweithgarwch a chefnogi ymchwil fwy cydgysylltiedig ledled Cymru.

Wrth edrych tua'r dyfodol, byddwn yn canolbwyntio ar gynnal y momentwm hwn: cefnogi ymchwilwyr ar bob cam o'u gyrfa, gwella cydweithio, a sicrhau bod ymchwil yn arwain at fanteision ystyrlon i gleifion. Bydd cryfhau data a gallu genomig ac ehangu mynediad at gyfleoedd ymchwil yn parhau i fod yn flaenoriaethau allweddol.

Mae cynnydd eleni yn adlewyrchu ymrwymiad ein hymchwilwyr, partneriaid, cleifion a rhanddeiliaid ledled Cymru, y mae eu cyfraniadau'n ganolog i'n llwyddiant. Wrth i ni symud ymlaen, mae ein nod yn syml: parhau i ddatblygu cymuned ymchwil gref, gysylltiedig sy'n cyflawni canlyniadau gwell i bobl y mae canser yn effeithio arnynt.

Canolfan Ymchwil Canser Cymru | Wales Cancer Research Centre

Cardiff University | Prifysgol Caerdydd

Swansea University | Prifysgol Abertawe

Prifysgol Bangor University 1884

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Cardiff and Vale University Health Board

walescancerresearchcentre.org

wcrc@caerdydd.ac.uk

@theWCRC